# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 5

CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU

## PENNOD 5

DARPARIAETH BELLACH MEWN PERTHYNAS Â CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG A RHEOLIADAU CYD-BWYLLGOR

*Swyddogaethau cyd-bwyllgorau corfforedig a phrif gynghorau a swyddogaethau sy'n ymwneud â hwy*

### 85 Gofyniad i ddarparu gwybodaeth etc.

Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor, awdurdod Parc Cenedlaethol neu gyd-bwyllgor corfforedig i ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol neu unrhyw ddogfennau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol—

(a) at ddibenion ystyried a ddylid gwneud rheoliadau o dan y Rhan hon;

(b) at ddibenion rhoi effaith i'r rheoliadau hynny;

(c) fel arall mewn cysylltiad â'r rheoliadau hynny.

### 86 Canllawiau

(1) Rhaid i brif gynghorau a chyd-bwyllgorau corfforedig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion Penodau 3 a 4 a'r Bennod hon.

(2) Rhaid i awdurdod Parc Cenedlaethol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion Pennod 4 a'r Bennod hon.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## 87 Arfer swyddogaethau gan brif gynghorau o dan y Rhan hon

(1) Nid yw adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys i'r swyddogaethau a nodir yn is-adran (4).

(2) Nid yw'r swyddogaethau a nodir yn is-adran (4) i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth prif gyngor o dan drefniadau gweithrediaeth.

(3) Mae maer etholedig i'w drin fel pe bai'n un o gynghorwyr prif gyngor at ddibenion y swyddogaethau a nodir yn is-adran (4).

(4) Y swyddogaethau yw—

(a) gwneud cais cyd-bwyllgor;

(b) rhoi cydsyniad o dan adran 73(4) i reoliadau cyd-bwyllgor gael eu gwneud;

(c) gwneud cais o dan adran 78 i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgor;

(d) rhoi cydsyniad o dan adran 81(4) i reoliadau cyd-bwyllgor gael eu diwygio.